# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Gardens**

**Castell-nedd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gardens Care Home

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gardens Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Gorffennaf 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yng Nghartref Gofal Gardens. Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau dyddiol i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Gwelsom fod y bobl yn gwneud defnydd da o'r gofod, ac yn gwneud yr hyn sydd o bwys iddynt. Mae ardaloedd yn y gwasanaeth lle gall y bobl ddewis cymdeithasu ynghyd ag ardal arall dawel, lle gall y bobl ymlacio. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i fynd i'r gymuned leol ac roedd y rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl yn gadarnhaol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi meysydd o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, meddyginiaeth a gofal a chymorth. Mae'r materion hyn yn peri risg sylweddol i lesiant y bobl ac mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Mae'r darparwr wedi dechrau rhoi'r newidiadau hyn ar waith o ganlyniad i'r arolygiad hwn.

Mae rheolwr hirsefydledig yn y gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd. Dywedodd y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth wrthym fod y tîm rheoli yn hyblyg ac yn gefnogol. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd ac i wella'r safonau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi eu llesiant ar y cyfan. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i wneud pethau y maent yn eu mwynhau ac sy'n bwysig iddynt. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff. Mae gan y gwasanaeth lolfa gymunedol brysur lle gall y bobl gymdeithasu, yn ogystal â lolfa fwy tawel y gall y bobl ei defnyddio i ymlacio os dymunant. Byddai dda o beth i'r ystafelloedd gwely'r bobl gael eu personoli pellach, a gwelsom fod rhywfaint o ddodrefn yr ystafelloedd gwely wedi'u difrodi a bod angen rhai newydd yn eu lle. Mae angen i'r gwasanaeth ymgynghori â'r bobl mewn perthynas â'u dymuniadau unigol a'u dewisiadau o ran y ffordd y caiff eu hystafelloedd eu dodrefnu a'u haddurno. Mae gan y bobl gyfleusterau sy'n annog eu hannibyniaeth gan gynnwys gardd hygyrch y gallant ei defnyddio'n rhydd, sy'n ddiogel. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yn y gwasanaeth.

Nid yw’r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn rhag niwed posibl. Mae angen i’r gwasanaeth sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a’u lleihau lle y bo’n bosibl. Mae systemau storio diogel ar waith ar gyfer meddyginiaethau, ond ni chaiff meddyginiaethau eu storio’n ddiogel bob amser. Gwnaethom dynnu sylw’r rheolwr at hyn ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad ac aeth i’r afael â’r mater yn gyflym. Gwelsom fod y trefniadau Storio a Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn annigonol ac nid yw’r mesurau i leihau risgiau i ddiogelwch bwyd yn cael eu cyflawni’n gyson. Gwnaethom drafod hyn â’r rheolwr ac Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ac mae wedi ymrwymo i roi mesurau ar waith i leihau’r risgiau hyn.

Ar y cyfan, mae gan y bobl lais, a gwrandewir arnynt. Mae'r rheolwr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r bobl, lle cânt eu gwahodd i roi adborth a rhannu syniadau am y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael i siarad â'r bobl. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y gofal yn cael ei adolygu'n barhaus a'i addasu yn unol ag anghenion newidiol y bobl mewn cytundeb â nhw a'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr. Mae angen adlewyrchu hyn mewn cynlluniau personol ac asesiadau risg cyfatebol.

Caiff y bobl eu cefnogi mewn gwasanaeth lle mae'r Unigolyn Cyfrifol yn weledol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn treulio llawer o amser yn y gwasanaeth a dywedodd y staff wrthym ei fod yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ei ymweliadau ac yn cwblhau adroddiadau chwarterol, gan gasglu adborth. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau ddwy waith y flwyddyn fel sy'n ofynnol, er mwyn llywio gwelliannau yn y gwasanaeth lle y bo'n bosibl. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd ar agweddau ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r diffygion wedi cael eu hamlygu ac felly ni aethpwyd i'r afael â nhw.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith. Gwnaethom edrych ar ddau gynllun personol a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu bob mis ac yn cynnwys y bobl a'u cynrychiolwyr cymaint â phosibl. Nid yw'r cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion a dyheadau'r bobl. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r systemau rheoli meddyginiaeth yn wael. Mae gan y gwasanaeth ystafell feddyginiaeth ddynodedig a chaiff gwiriadau tymheredd eu cwblhau bob dydd. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai o'r meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr at hyn ar unwaith ac aeth ati'n gyflym i unioni hyn. Mae angen rhoi canllawiau meddyginiaeth ‘yn ôl yr angen’ (PRN) ar waith, ac mae angen i'r staff sydd wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaeth sicrhau eu bod yn gyfarwydd  â'r canllawiau. Mae'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth wedi'u hysgrifennu â llaw gan y gwasanaeth, sy'n cynyddu'r risgiau o wallau. Gwnaethom gynghori'r rheolwr i wneud cais am siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth wedi'u hargraffu gan y fferyllfa i leihau'r risg o wallau. Cynhelir gwiriadau stoc meddyginiaeth ond mae angen iddynt fod yn fwy rheolaidd a chadarn. Nid yw'r polisi meddyginiaeth yn cyfeirio at y trefniadau storio meddyginiaeth yn ddigonol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol bellach yn cymryd camau i godi safonau ynghylch meddyginiaeth.

Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chefnogol rhwng y staff gofal a'r bobl. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi byw yn y gwasanaeth. Gwelsom y staff gofal yn cynnwys y bobl mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae cynlluniau gweithgareddau ar waith sy'n adlewyrchu diddordebau'r bobl. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i gymryd rhan yn y gymuned leol. Caiff dewisiadau diwylliannol a chyfathrebu'r bobl eu parchu, a cheisir cyfleoedd i hyrwyddo hyn.

Mae dulliau ar waith i ddiogelu’r bobl. Mae'r holl staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a dangosodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r ffordd i godi pryder diogelu a gwnaethant ddweud wrthym am y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Lle y bo angen, mae cais wedi'i wneud ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a chyfeiriwyd at hyn yn y cynlluniau personol.

## Yr Amgylchedd

Ni ddarperir gofal a chymorth yn gyson mewn amgylchedd sy'n helpu i gyflawni canlyniadau personol. Mae ardaloedd cymunedol lle gall y bobl ymlacio a chymdeithasu a gwelsom y bobl yn gwneud defnydd da ohonynt. Mae gan y bobl rwydd hynt i ddefnyddio'r ardd a gwelsom y bobl yn gwneud defnydd o'r ardal hon. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r lolfa gymunedol wedi cael ei hailaddurno ac mae goleuadau a chadeiriau newydd wedi cael eu gosod. Mae lloriau newydd wedi cael eu gosod ar y llawr gwaelod ac mae'r waliau wedi cael eu hail-baentio. Mae cynlluniau ar waith i adnewyddu'r lloriau ar yr ail lawr. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr ond byddai'n dda o beth iddynt gael eu personoli rywfaint yn unol â chwaeth unigol a dewisiadau'r bobl. Mae rhywfaint o ddodrefn yr ystafelloedd gwely wedi'u difrodi ac mae angen rhai newydd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Rhoddodd y darparwr sicrwydd i ni y bydd yn atgyweirio dodrefn yr ystafelloedd gwely neu'n cael rhai newydd, ac yn dilyn ein harolygiad, mae wedi ymgynghori â'r bobl am y gwaith o addurno eu hystafelloedd gwely.

Caiff gwiriadau diogelwch tân gan gynnwys diffoddwr tân, larymau a system canfod tân eu cwblhau. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith. Gwelsom fod ymarfer tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Gwelsom asesiad risg diogelwch tân a oedd wedi cael ei adolygu’n flynyddol gan y rheolwr a’r Unigolyn Cyfrifol. Roedd yr asesiad gwreiddiol wedi cael ei gwblhau gan berson cymwys. Cynhaliwyd yr asesiad risg gwreiddiol fwy na phum mlynedd yn ôl, ac rydym wedi cynghori’r Unigolyn Cyfrifol i gael asesiad risg newydd gan berson cymwys. Mae hyn oherwydd newidiadau i reoliadau adeiladau ynghyd â newid yn nifer y preswylwyr yn y gwasanaeth. Rydym wedi rhannu’r cyngor hwn â’r rheolwr a’r Unigolyn Cyfrifol, ac maent wedi cytuno i gwblhau asesiad risg newydd. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn anfon copi o asesiad risg tân newydd y cartref ymlaen ar ôl i berson cymwys ei gwblhau.

Ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u lleihau yn gyson. Gwelsom gynhyrchion COSHH heb eu storio'n briodol. Gwelsom oergell a rhewgell wrth gefn ychwanegol yn yr ystafell golchi dillad a oedd yn cael eu defnyddio i storio bwyd. Nid oedd gwiriadau tymheredd bwyd yn cael eu cynnal ar eu cyfer. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae cyfleustodau megis nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a gwelsom dystysgrifau. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac mae llyfr ymwelwyr ar waith. Diben hyn yw sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel a chydymffurfio â rheoliadau tân. Nid oes gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd ar hyn o bryd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae'r rheolwr yn gweithio'n agos gyda'r bobl a'r staff yn ddyddiol ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwelsom adolygiadau o ansawdd y gofal sy'n nodi trafodaethau â'r bobl, y staff a theuluoedd. Gwelsom adroddiadau ar ymweliadau rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol hefyd. Nid yw'r adolygiadau o ansawdd y gofal a chofnodion o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol yn tynnu sylw at faterion meddyginiaeth, rheoli heintiau a COSHH.

Nid yw'r staff yn cael eu recriwtio'n gyson na'u fetio'n briodol. Er bod gwiriadau cefndir ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio mewn maes gofal cymdeithasol, nid ydynt yn ddigon trylwyr. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal ar y cam cyflogi. Fodd bynnag, gwelsom fod un o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal gan gyn-gyflogwr ac mae angen ei adnewyddu. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cais wedi'i wneud ar gyfer hyn yn ddiweddar. Ar ben hynny, gwelwyd bylchau enfawr yn yr hanes cyflogaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, neu'n gweithio tuag at hyn.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol. Gwelsom fatrics hyfforddiant sy'n dangos bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau gan y staff gofal. Ar y cyfan, mae'r hyfforddiant yn gyfredol ac yn cynnwys cyrsiau gorfodol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r holl staff gofal wedi cael hyfforddiant sefydlu sy'n dilyn 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan' Gofal Cymdeithasol Cymru. Dangosodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau a gwybodaeth dda amdanynt. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn awyddus i gael hyfforddiant ychwanegol pan gynigir hynny, i feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi sicrhau lleoedd ar gwrs hyfforddiant Cymorth Cyntaf ymarferol gyda'r awdurdod lleol ac wedi trefnu i'r staff fynychu.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff ymrwymedig sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Mae'r rhain yn fanwl ac yn canolbwyntio ar ddatblygiad y staff. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd ac mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos bod pwyslais ar waith tîm. Mae'r sgyrsiau yn rhai dwy ffordd a cheir diwylliant agored a gonest yn y tîm. Gwnaethom siarad â'r staff gofal am eu profiad o weithio i'r gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym "*Management are very understanding and flexible, I feel supported and valued*".

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r gwasanaeth wedi archwilio'r ymarfer lleiaf cyfyngol posibl ac nid yw wedi cynnwys y tîm amlddisgyblaethol wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr ymarfer hwn. Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol wrth roi ymarfer cyfyngol ar waith. Rhaid nodi unrhyw ymarfer cyfyngol yn y cynllun personol a'i adolygu'n rheolaidd. | Newydd |
| 57 | Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nifer o risgiau Iechyd a Diogelwch sylweddol mewn perthynas â Storio a Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a Diogelwch Bwyd. Y camau gweithredu gofynnol yw cael Cwpwrdd COSHH yn benodol ar gyfer deunyddiau COSHH. Cwblhau gwiriadau tymheredd bwyd dyddiol ar bob oergell a rhewgell lle | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | caiff bwyd ei storio. | |
| 58 | Gwnaethom gwblhau archwiliad meddyginiaeth a gwelsom nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn rheolaidd a bod y trefniadau rheoli meddyginiaeth yn annigonol. Mae angen cymryd camau gweithredu i sicrhau trefniadau diogel ar gyfer storio'r holl feddyginiaeth, a rhoi canllawiau PRN ar waith a sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r rhain. Mae angen i'r systemau archebu meddyginiaeth a'r gwiriadau stoc fod yn fwy cadarn. Rhaid adolygu a diweddaru'r polisïau meddyginiaeth fel eu bod yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau storio meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau a reolir. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Mae angen dodrefn newydd yn yr ystafelloedd gwely a'u haddurno ar ôl ymgynghori â'r bobl ac yn unol â'u dewisiadau unigol. | Newydd |
| 35 | Gwelsom fylchau yn yr hanes cyflogaeth staff ac nid yw'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Rhaid rhoi gwiriadau cefndir ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio, a rhaid i'r wybodaeth recriwtio staff fod yn unol â'r gofynion rheoliadol. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/10/2024